# EUR2 08-04(P3-w)

# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

**Dyddiad:** 11 Tachwedd 2004
**Amser:** 09:00 – 12.10 am
**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
**Teitl:** Cymru, Cenedl Ryngwladol - Fframwaith Strategol

## Diben

Yn y papur amgaeedig, amlinellir y ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu mynd ati i gyrraedd ei nod o sicrhau bod Cymru'n cael ei chydnabod ledled y byd, ac eir ati hefyd i amlinellu'r fframwaith strategol ar gyfer gweithgareddau rhyngwladol y Llywodraeth.

## Crynodeb

Yn y fframwaith strategol hwn, amlinellir yr egwyddorion a fydd yn sail i weithgareddau a blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad yn y meysydd allweddol a ganlyn, sy'n cyffwrdd â'i gilydd ac yn ategu'i gilydd.

Cysylltiadau Rhyngwladol;
Delwedd a Brandio Cymru;
Hyrwyddo a Marchnata;
Digwyddiadau ac ymweliadau - mewnol ac allanol;
Gweithio gyda eraill, a thrwy eraill.

## Camau i'w Cymryd

Byddai Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu sylwadau'r Pwyllgor am y ddogfen.

**Prif Swyddog Cyswllt: Ifona Deeley**

## Cymru, Cenedl Ryngwladol - Fframwaith Strategol

**Y Weledigaeth**

Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw sicrhau bod Cymru'n cael ei chydnabod yn Genedl Ryngwladol a sicrhau ei bod ar ei hennill yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn wleidyddol o'r herwydd. Bydd:

- yn fan y mae pobl yn dewis byw, gweithio ac astudio ynddo, ymweld ag ef a chynnal busnes ynddo;
- yn genedl gryf o ran masnach ryngwladol;
- yn wlad flaenllaw a fydd yn gallu dylanwadu ar bolisïau a chynigion cenedlaethol a rhyngwladol sy'n effeithio ar fywydau beunyddiol pobl Cymru;
- yn bartner gwerthfawr o safbwynt rhannu gwybodaeth, profiad ac arbenigedd.

1. Yn y ddogfen hon, amlinellir yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid wedi'i gyflawni hyd yn hyn wrth anelu at wireddu'r weledigaeth hon, ac amlinellir hefyd y fframwaith strategol ar gyfer parhau â'r gwaith hwn.

## Y Cefndir

2. Am bob math o resymau hanesyddol, nid yw proffil rhyngwladol Cymru mor amlwg â phroffil yr Alban neu Iwerddon, ac nid yw’n cael ei chydnabod i’r un graddau â hwy. Ers datganoli ac ers sefydlu'n Cynulliad a'n Llywodraeth ein hunain ym 1999, rydym wedi dechrau mynd i'r afael â'r mater, gan fanteisio ar y cyfle dihafal hwn i ennyn mwy o ymwybyddiaeth am Gymru dros y môr ac i roi stamp ein hunaniaeth unigryw ar y byd.

3. Ar sawl cyfrif, roedd yn rhaid i ni ddechrau o'r dechrau bron. Roedd yn rhaid i ni fynd ati i ddysgu'r grefft o feithrin cysylltiadau rhyngwladol, o hyrwyddo a marchnata, gan wneud hynny ym maes masnach ac yn fwy cyffredinol. Rydym wedi gorfod dysgu a magu profiad, ynghyd â datblygu ffyrdd o wneud ein marc. Rydym wedi llwyddo i wneud hynny drwy ffurfio partneriaethau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r asiantaethau sydd ag arbenigedd penodol mewn mewnfuddsoddi a thwristiaeth.

4. Dyma rai o'r camau a gymerwyd hyd yn hyn:

- Mae Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn aelodau gweithgar o rwydweithiau Ewropeaidd megis Pwyllgor y Rhanbarthau, Cynhadledd y Rhanbarthau Morol ac Ymylol; EARLALL; Rhwydwaith y Teleranbarthau; Rhwydwaith Rhanbarthau Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd (RHN).
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn un o aelodau blaenllaw NRG4SD, y sefydliad sy'n ceisio rhannu'r arferion gorau a hyrwyddo datblygu cynaliadwy ar y lefel ranbarthol. Cynhaliwyd y bedwaredd gynhadledd yng Nghaerdydd.
- Ers datganoli, rydym wedi croesawu llawer o ymwelwyr pwysig i Gymru. Yn eu plith yr oedd Arlywyddion a Phrif Weinidogion, ac mae nifer ohonynt wedi annerch Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr. (Gweler Atodiadau 1 a 2)
- Mae cytundebau ffurfiol wedi'u llofnodi neu'u cadarnhau ar lefel Gweinidogion rhwng llywodraeth Cymru a Thalaith Chubut, Catalonia, De Cymru Newydd, Silesia, Llydaw, a Latfia. Y cytundeb olaf hwn yw'r berthynas ffurfiol gyntaf gydag un o aelod-wladwriaethau'r Undeb

Ewropeaidd.

- Rydym wedi llwyddo i sicrhau mwy o gynrychiolaeth dramor drwy rwydwaith o ganolfannau a swyddfeydd rhyngwladol, ac wedi llwyddo hefyd i gryfhau'r gynrychiolaeth honno.
- Rydym wedi cydweithio ag eraill - y byd academaidd, llywodraeth leol, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad - i ddatblygu dull mwy integredig o fynd i'r afael â gweithgareddau rhyngwladol.
- Rydym wedi datblygu Cymru, Cenedl Ryngwladol - pecyn marchnata a chyfathrebu integredig o ansawdd uchel - er mwyn hyrwyddo delwedd gorfforaethol Cymru.

5. Bum mlynedd ar ôl datganoli, mae Cymru'n magu hyder ar y llwyfan rhyngwladol ac yn ennyn parch ymhlith ein partneriaid yn Ewrop ac yng ngweddill y byd. Rydym wedi dysgu llawer am faterion rhyngwladol, ac wedi magu profiad helaeth yn y maes. Rydym wedi dechrau cymryd gwaith hyrwyddo a gwella ymwybyddiaeth o ddifrif, gan wneud hynny ar raddfa nas gwelwyd erioed o'r blaen. Er bod ffordd bell i fynd cyn gwireddu'n gweledigaeth, rydym yn gwbl glir ynghylch sut y byddwn yn mynd ati i gyrraedd y nod. Bydd diwygio gwasanaethau cyhoeddus ac uno cyrff allweddol yn y maes hwn - Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru - gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cryfhau'n gallu'n sylweddol yn hyn o beth.

6. Dyma'r adeg i ymdrechu o'r newydd ac i amlinellu'r fframwaith strategol y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â'n partneriaid a chyrff ledled Cymru, yn ei ddefnyddio wrth fynd ati i wireddu'r weledigaeth o sicrhau y bydd llawer mwy yn gwybod am Gymru.

## Y manteision economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol

7. Ar sawl cyfrif, mae ceisio mynd ati ar wahân i ddiffinio'r manteision economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol yn broses artiffisial. Maent i gyd yn ddibynnol ar ei gilydd, gan fod llwyddiannau mewn un maes yn effeithio ar y lleill.

8. Yn aml, mae'r manteision economaidd yn fwy diriaethol ac yn haws i'w mesur. Mae'r manteision hyn i'w gweld drwy Fuddsoddiad Uniongyrchol uwch o Dramor a thrwy gysylltiadau masnach proffidiol. Mae gwaith Awdurdod Datblygu Cymru a MasnachCymru Rhyngwladol yn gwbl sylfaenol o ran cryfhau'n sefyllfa yn y meysydd hyn. Yn y gorffennol, maent wedi bod o dan reolaeth wahanol. Ar y cyd, bydd ganddynt broffil amlycach a mwy o allu i roi gwell cyhoeddusrwydd i Gymru. Mae twristiaeth hefyd yn ffactor economaidd o bwys yng Nghymru - er mai marchnad y DU sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gweithgarwch ym maes twristiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'r sefyllfa hon yn newid, diolch i sgiliau marchnata Bwrdd Croeso Cymru. Efallai fod y manteision economaidd a'r manteision hirdymor sy'n deillio o annog myfyrwyr o dramor i astudio yng Nghymru yn llai amlwg, ond mae hwn yn faes lle gwelwyd datblygiadau sylweddol yn ddiweddar ar ôl ffurfio Consortiwm Rhyngwladol Cymru, corff sy'n cynrychioli holl brifysgolion a cholegau Cymru.

9. Gellir mynd ati i bwyso a mesur y manteision cymdeithasol drwy edrych ar ansawdd bywyd unigolion, a bydd unrhyw welliant ynddo yn deillio'n naturiol o fwy o ffyniant economaidd. Er hynny,

bydd meithrin ein cysylltiadau rhyngwladol hefyd yn rhoi cyfle i ni wella ansawdd bywyd pobl Cymru. Trwy gydweithredu a chydweithio â gwledydd eraill, gallwn ddysgu a magu profiad a fydd yn sail i'r polisïau y byddwn yn eu datblygu mewn meysydd megis yr amgylchedd, iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Ond mae cysylltiadau o'r fath yn gweithio'r ddwy ffordd, a gallwn gynnig llawer i'r byd. Bydd yr enw da sydd gennym mewn meysydd megis datblygu cynaliadwy, datblygu iaith a thechnolegau amgylcheddol, yn ei dro, yn agor drysau, gan sicrhau mwy o gydnabyddiaeth a dylanwad ar y lefel ryngwladol.

10. Ers datganoli, mae yna gyfleoedd gwych i hyrwyddo Cymru yn wleidyddol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol. Weithiau, mae safbwynt Cymru, a’n profiadau a'n dyheadau, yn wahanol i rai'r DU drwyddi draw. Gallwn fanteisio ar y ffaith honno. Eisoes, rydym wedi gweld y diddordeb y mae Cymru'n ei ennyn mewn gwledydd sydd am ddysgu mwy am lywodraeth ddatganoledig ac sydd am feithrin cysylltiadau â Chymru yn benodol. Efallai na fyddai'r gwledydd hynny, o reidrwydd, yn teimlo bod digon yn gyffredin rhyngddynt a'r DU drwyddi draw. Mae datganoli'n caniatáu i ni fod yn rhan o rwydweithiau a fydd yn rhoi mwy o ddylanwad i Gymru fel gwlad, ac i feithrin cysylltiadau, a fydd o fantais i ni yn y tymor hir, gyda gwledydd a rhanbarthau eraill.

## Y Ffordd Ymlaen

11. Bydd sicrhau mwy o gydnabyddiaeth fel Cenedl Ryngwladol o fudd economaidd, addysgol a gwleidyddol i bob agwedd ar gymdeithas Cymru ac i holl bobl Cymru. Mae'n nod uchelgeisiol ac nid fydd modd mynd â'r maen i'r wal heb gyfraniad ac ymrwymiad pawb sydd â budd yn y mater. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod mai ei chyfrifoldeb hi yw arwain y ffordd yn hyn o beth, a datblygu a chreu'r fframwaith i wireddu'r weledigaeth. Mae'n cydnabod hefyd fod gan eraill ran sylweddol i'w chwarae, a'i bod yn ddibynnol ar eu cydweithrediad llawn. Felly, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i geisio cydweithio, y tu mewn i Gymru a’r tu allan iddi, gydag eraill a all wneud cyfraniad yn hyn o beth e.e. y sectorau cyhoeddus a phreifat, byd busnes, cymdeithas ddinesig, y byd academaidd. Wrth fynd ati i wneud hyn, un o'r egwyddorion allweddol fydd canolbwyntio ar ein cryfderau, a manteisio i'r eithaf arnynt. Un o'r egwyddorion eraill fydd bod yn realistig o safbwynt adnoddau, blaenoriaethau a gwerth am arian. Yn anad dim, rhaid i ni osgoi rhoi negeseuon gwahanol a brandio mewn ffyrdd gwahanol.

12. Byddwn yn sianelu'n gweithgareddau a'n blaenoriaethau drwy nifer o feysydd allweddol:

- Cysylltiadau rhyngwladol;
- Delwedd a Brandio Cymru;
- Hyrwyddo a Marchnata;
- Digwyddiadau ac ymweliadau - mewnol ac allanol;
- Gweithio gyda eraill, a thrwy eraill.

13. Mae'r meysydd gweithgarwch hyn yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn ategu'i gilydd, ac mae angen fframwaith cyffredin pendant ac integredig ar eu cyfer er mwyn cyrraedd y nod. Rhaid osgoi meddylfryd

cyfyng ei orwelion a dull cul o weithredu os ydym am gyflawni i'r eithaf. Er bod Cymru'n wlad fach, gallwn gyflawni mwy na'r disgwyl drwy weithio gyda'n gilydd. Ein nod yw rhoi Cymru, yn hytrach nag unrhyw sefydliad neu frand unigol, ar fap y byd. Cymru yw'r brand.

## Cysylltiadau Rhyngwladol

14. Mae cysylltiadau ag un neu fwy o wledydd neu ranbarthau eraill, a meithrin cysylltiadau rhyngwladol yn gyffredinol, yn fodd i roi mwy o amlygrwydd i Gymru ac i ddylanwadu ar eraill. Byddai ffurfio cynghreiriau strategol â gwledydd a rhanbarthau sydd o'r un meddylfryd yn hynod fanteisiol i'r naill ochr a'r llall yn hynny o beth, ac yn arwain hefyd at fanteision economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol ymarferol.

15. Nid oes yn rhaid wrth Femorandwm Dealltwriaeth neu ddogfen debyg (megis y rhai sydd gan Gymru â Chatalonia, Baden-Württemberg, Chubut, De Cymru Newydd, Llydaw, Silesia a Latfia) ar gyfer cynghreiriau a chysylltiadau o'r fath. Gallant fod yr un mor ystyrlon ac effeithiol o'u seilio ar berthynas waith gadarn ac ar fanteision ymarferol (er enghraifft, y berthynas rhwng Cymru ag Emilia Romagna, Fflandrys, y Ffindir a Lesotho).

16. Byddwn yn parhau i feithrin cysylltiadau â gwledydd a rhanbarthau allweddol, ond gan dorri'r got yn ôl y brethyn. Wrth fagu hyder ac aeddfedu, gallwn fod yn fwy pragmatig nag yn y gorffennol wrth feithrin cysylltiadau. Os yw'r berthynas am fod yn un ystyrlon, ac o fudd i'r naill ochr a'r llall, bydd yn rhaid wrth barch, a bydd yn rhaid bod yn agored ac yn bragmatig. Dylai unrhyw berthynas arwain hefyd at fanteision pendant a mesuradwy. Dyna'r egwyddorion y byddwn yn eu harddel wrth adolygu'r cysylltiadau sydd gennym eisoes, wrth ystyried y posibiliadau y mae cysylltiadau eraill yn eu cynnig, ac wrth benderfynu faint o adnoddau y byddwn yn eu hymrwymo ar eu cyfer. Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar ffurfio cynghreiriau sy'n dod â manteision i Gymru - gan nodi'r blaenoriaethau a chanolbwyntio arnynt mewn ffordd gydgysylltiedig er mwyn sicrhau'r effaith orau bosibl. Ond ar yr un pryd, bydd angen i ni fod yn ddigon hyblyg i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg.

17. Bydd ein perthynas a'n hagwedd at wledydd a rhanbarthau nad yw eu blaenoriaethau'n gydnaws â'n rhai ni, a'r ffordd y byddwn yn ymdrin â'r gwledydd a'r rhanbarthau hynny, yn seiliedig ar gwrteisi, cyfeillgarwch a pharch, ond ni fyddwn yn ymrwymo'r un adnoddau ar gyfer y cysylltiadau hynny ag y byddwn ar gyfer rhai agosach.

18. Byddwn yr un mor bragmatig, ac yn arddel yr un egwyddorion wrth feithrin cysylltiadau ehangach, yn ein hymwneud â rhwydweithiau sy'n cynnwys sawl gwlad neu ranbarth ac yn ein hymwneud â grwpiau megis CPMR, RegLeg, EARLALL, y Pedwar Rhanbarth Sbardun ac NRG4SD.

19. Byddwn yn annog sefydliadau Cymreig eraill i feithrin cysylltiadau ar wahân i rai'r Llywodraeth ei hun, ac yn eu cefnogi yn hynny o beth.

## Delwedd a Brandio Cymru

20. Yn naturiol ddigon, mae'r asiantaethau allweddol sy'n ymgymryd â gweithgareddau tramor ar ran Cymru, sef Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru, wedi canolbwyntio ar ddenu Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor neu ar hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid. Nid codi ymwybyddiaeth am Gymru, a rhoi gwell proffil iddi, yw bwriad y gwaith hyrwyddo a wneir mewn sectorau penodol.

21. Cymru, Cenedl Ryngwladol, sef menter gyfathrebu a lansiwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2001, oedd yr ymgais ddifrifol gyntaf i ddatblygu a hyrwyddo delwedd gorfforaethol i Gymru er mwyn ategu'r nod cyffredinol o sicrhau bod Cymru'n fan y mae pobl yn dewis gweithio ac astudio ynddo, ymweld ag ef, a chynnal busnes ynddo. Rydym yn bwriadu datblygu mwy ar y fenter honno er mwyn hyrwyddo delwedd gyson a chadarnhaol o Gymru'n gyffredinol, ond gan sicrhau hefyd fod modd addasu'r ddelwedd honno er mwyn diwallu anghenion marchnadoedd a sectorau gwahanol.

22. Mewn gwaith a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Cyrff Cyhoeddus Allweddol a Noddir gan y Cynulliad, penderfynwyd mai'r cysyniad o "ragoriaeth benodol" ddylai fod yn sail i ddelwedd Cymru, ym mha ffordd bynnag ac ym mha farchnad bynnag y caiff y ddelwedd honno ei defnyddio. Rhaid i ni bennu ein Pwyntiau Gwerthu Unigryw. Mae gan Gymru straeon o'r radd flaenaf i'w hadrodd am hyrwyddo'r ddelwedd o "ragoriaeth benodol" ar lefel fyd-eang – gallai’r symbolau hyn o Gymru ar ei gorau gynnwys y ffaith ein bod yn cynhyrchu holl adenydd yr Airbus ym Mrychdyn, Sir y Fflint; Fferi Hynod Gyflym Ulysses o Gaergybi i Ddulyn; academwyr sydd wedi ennill Gwobr Nobel; pobl ym maes chwaraeon a all gystadlu â'r goreuon yn y byd; Cymry sy'n enwog ledled y byd yn y celfyddydau perfformio ac ym maes diwylliant; Ymchwil ar y lefel uchaf un mewn Prifysgolion ar Fôn-gelloedd, cartref Cwpan Ryder yn 2010; Artes Mundi; gwobr Lenyddol Dyfan Thomas; cysyniad y Technium. Ymhlith pethau eraill, rydym yn cael ein cydnabod a'n gwerthfawrogi am ein tirwedd arbennig, ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, ein diwylliant a'n traddodiadau. Cydnabyddir hefyd fod gennym weithlu medrus, amgylchedd ffafriol i fusnesau, pobl gyfeillgar a bwyd a diod o ansawdd.

23. Mae'n rhaid i ni wella'n perfformiad yn rhyngwladol drwy fanteisio ar enghreifftiau o'r fath a thrwy ganolbwyntio ar ddweud wrth y byd am yr hyn y mae Cymru'n ei wneud yn dda ac am bobl enwog o Gymru, na fyddai’r byd, o bosibl, yn eu cysylltu â Chymru. Byddwn yn llwyddo mwy drwy ganolbwyntio ar ein cryfderau. Dyna yw sail y cydsyniad o "ragoriaeth benodol". Bydd uno Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru gyda Llywodraeth y Cynulliad, a'i changen masnachu rhyngwladol, MasnachCymru Rhyngwladol, yn hwyluso'r broses hon.

## Hyrwyddo a Marchnata

24. Mae nifer o gyrff wrthi ar hyn o bryd yn hyrwyddo ac yn marchnata Cymru dramor. Ychydig iawn o ymdrech, os o gwbl, a wnaed yn y gorffennol i wneud hynny'n gorfforaethol neu i ystyried y posibiliadau o wneud hynny ar wahân i weithgareddau a mentrau Llywodraeth y Cynulliad ei hun, megis y rheini sy'n troi o amgylch dathlu Dydd Gyl Ddewi ledled y byd neu ddigwyddiadau amlwg megis yr

un cyffredinol am Gymru a oedd yn gysylltiedig â Chwpan Rygbi'r Byd yn Sydney yn 2003.

25. Lle bynnag y bydd hynny'n briodol ac yn ymarferol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu mabwysiadu dull corfforaethol o hyrwyddo a marchnata Cymru yn y marchnadoedd yr ydym yn rhoi blaenoriaeth iddynt, gan ddatblygu deunydd corfforaethol a mentrau Cysylltiadau Cyhoeddus a marchnata cyffredinol. Unwaith eto, bydd y ffaith bod yr asiantaethau allweddol yn uno yn hwyluso'r broses honno.

26. Mae'n fwriad hefyd gan Lywodraeth y Cynulliad fanteisio mwy ar y rhwydwaith sylweddol o gynrychiolwyr sydd wedi'i sefydlu dramor gan naill ai'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad neu gan Lywodraeth y Cynulliad ei hun. Mae yna bresenoldeb o ryw fath neu'i gilydd yn Efrog Newydd, Chicago, San Fransisco, Ontario, Paris, Amsterdam, Milan, Hong Kong, Shanghai, Beijing, Tokyo, Seoul, Dubai, Singapôr a Sydney. Bydd y gynrychiolaeth honno'n amrywio: gall fod yn unigolyn yn gweithio o gartref, yn swyddfa sy'n cael ei rhannu ag eraill, yn swyddfa un ystafell neu'n swyddfa fwy mewn canolfan sy'n cynrychioli Cymru'n rhyngwladol. Er y bydd yn rhaid wrth ddulliau gwahanol ar gyfer marchnadoedd gwahanol, byddwn yn anelu at sicrhau y bydd holl gynrychiolwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru/y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn cyfrannu at y gwaith o hyrwyddo Cymru'n gyffredinol, gan weithio y tu allan i'w sectorau penodol, a defnyddio brandiau a delweddau cyson, blaengar a pherthnasol o Gymru.

## Digwyddiadau ac ymweliadau - mewnol ac allanol

27. Mae'n bwysig ein bod yn cael ein gweld. Ar y cyd â'r sefydliadau sy'n bartneriaid i ni, rydym wedi sefydlu patrwm o ddigwyddiadau amlwg dramor i hyrwyddo Cymru'n gyffredinol, gan wneud hynny ar sail egwyddorion busnes priodol, a chan deilwra ac addasu'r digwyddiadau fel y bo angen. Ymhlith enghreifftiau diweddar y mae Ffair Ryngwladol Tsieina ar gyfer Buddsoddiad yn Xiamen, Cwpan Rygbi'r Byd yn Sydney, y Biennale yn Fenis, statws cenedl sy'n cael lle blaenllaw yn yr yl RyngGeltaidd yn Lorient, a Phenwythnos Cymru yn Efrog Newydd. Bu'r holl ddigwyddiadau hyn yn hynod lwyddiannus. Byddwn yn dal i dynnu sylw at Gymru dramor os yw'r achos busnes dros wneud hynny yn cyfiawnhau'r buddsoddiad. Yn fwy cyffredinol, Dydd Gyl Ddewi fydd ein prif gyfrwng i roi mwy o amlygrwydd i Gymru dramor.

28. O'u targedu'n briodol, gall mynd i gyfarfodydd/cynadleddau rhyngwladol, ymweld â gwledydd tramor a mynd ar deithiau, fod yr un mor fuddiol o ran denu mwy o sylw a datblygu dylanwad. Byddwn yn dal i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd a ddaw i'n rhan, a lle bo hynny'n ymarferol, byddwn yn annog a chefnogi eraill i wneud yr yn peth.

29. Nid dim ond cyfrannu'n uniongyrchol at yr economi leol y mae digwyddiadau o bwys sydd â chynulleidfa ac apêl ryngwladol. Maent hefyd yn gyfle euraid i hyrwyddo Cymru a rhoi mwy o amlygrwydd i ni. Hyd yn hyn, nid ydym wedi manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn am fod ein trefniadaeth yn hyn o beth yn dameidiog. Trwy weithredu mewn ffordd fwy corfforaethol ym maes Cysylltiadau Cyhoeddus ac wrth farchnata, byddwn yn gallu manteisio'n well ar ddigwyddiadau megis

Rali Cymru Prydain Fawr, Cwpan Ryder 2010 a'r digwyddiadau rhagarweiniol, digwyddiadau yn Stadiwm y Mileniwm a Chanolfan Mileniwm Cymru, Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen, Artes Mundi, Gyl Lenyddol y Gelli a Gyl Jazz Aberhonddu.

30. I ryw raddau, gellir mesur llwyddiant y gwaith a wneir i roi mwy o amlygrwydd i Gymru drwy'r nifer cynyddol o ymweliadau gan Bobl Bwysig Iawn a chan ddirprwyaethau. Gan amlaf, mae'r hyn y maent yn ei weld yn creu cryn argraff ar yr ymwelwyr hyn, am ei fod yn well o lawer na'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl. Byddwn yn parhau i geisio denu ymwelwyr dylanwadol i Gymru, yn enwedig y rheini a all helpu'n hachos mewn marchnadoedd neu feysydd penodol.

## Gweithio gyda eraill, a thrwy eraill

31. Drwy gydweithio ag eraill, a thrwy eraill, y tu mewn i Gymru a'r tu allan iddi, y byddwn yn llwyddo orau. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda hwy mewn ffordd gydgysylltiedig a strwythuredig os ydym am fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd rhyngwladol sydd ar gael, a sicrhau'r fargen orau i Gymru.

## Sefydliadau ar lefel y DU

32. Mae cylch gwaith sefydliadau ar lefel y DU, megis y Cyngor Prydeinig, Visit Britain, UKTI, yn berthnasol i'r DU gyfan. Mae'n rhaid i ni gydweithio â hwy er mwyn sicrhau eu bod hwythau hefyd yn rhoi darlun cyson a pherthnasol o Gymru sy'n cyfateb i'r ddelwedd yr ydym ni'n ei hyrwyddo. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau y mae sefydliadau o'r fath yn eu defnyddio dramor, a bod ganddynt hwy y deunyddiau a'r modd i hyrwyddo'n hachos ni.

## Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad

33. Gall swyddi yn y Swyddfa Dramor a Chymanwlad fod o gymorth mawr o ran codi proffil Cymru a hybu gweithgarwch dramor mewn meysydd lle nad oes gennym gynrychiolaeth uniongyrchol. Maent wedi bod o gymorth mawr ar draws ein holl weithgareddau tramor - masnach ryngwladol, denu Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor, meithrin cysylltiadau â rhanbarthau sy'n bartneriaid i ni, ac ym meysydd cyhoeddusrwydd a gwella proffil. Mae Dydd Gyl Ddewi eisoes yn rhan o galendr nifer o bobl sy'n gweithio mewn swyddi dramor. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r fenter honno, ac yn ceisio sicrhau bod buddiannau Cymru'n rhan annatod o'r brif ffrwd.

34. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad i gyflawni'n hamcanion, gan sicrhau'n benodol fod ein buddiannau ni'n rhan o flaenoriaethau strategol y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, ac yn cael eu diogelu i'r graddau mwyaf posibl. Byddwn yn cydweithio yn yr un modd ag Adrannau eraill Llywodraeth y DU, gan gynnwys Swyddfa Cymru, a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, lle bo hynny'n briodol.

## Y Corfflu Diplomyddol

35. Rydym wedi mynd ati fwyfwy i gydweithio â'r Corfflu Diplomyddol yn Llundain, a byddwn yn parhau i wneud hynny er mwyn cyflawni'n hamcanion ac er mwyn cefnogi'n gweithgareddau ehangach. Byddwn yn cydweithio hefyd â’r Grp Conyslaidd yng Nghymru, sydd â mwy nag 20 o aelodau, a byddwn yn parhau i bwyso am fwy o gynrychiolaeth i Gymru ar lefel is-genhadon.

## Y Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol

36. Mae gweithgarwch rhyngwladol yn ffynnu ar sawl lefel wahanol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gweithgarwch hwnnw'n amrywio o efeillio trefi i rannu profiad a'r arferion gorau ym meysydd iechyd a llywodraeth leol. Mae'r rhwydwaith academaidd rhyngwladol yn weithgar iawn hefyd, ac mae cysylltiadau hynod fuddiol wedi'u meithrin rhwng academwyr a sefydliadau. Yn ogystal, mae'r sector gwirfoddol yn mynd ati fwyfwy i feithrin cysylltiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau tramor. Rydym am gefnogi cysylltiadau a gweithgareddau o'r fath, a chael eu cefnogaeth hwy hefyd, er mwyn datblygu ymdrech fwy cydlynol i hyrwyddo Cymru.

## Y Sector Preifat

Mae gan y sector preifat ei ran i'w chwarae wrth hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, a byddwn yn anelu at gydweithio â'r sector - gyda chwmnïau unigol lle bo hynny'n briodol, ac yn gorfforaethol - gan fanteisio ar ein cryfderau mewn sawl agwedd ar fusnes a masnach.

## Y Cymry ar Wasgar

38. Gall y Cymry sydd ar wasgar ledled y byd fod yn gynghreiriad pwerus i ni. Yn fynych, gallant fanteisio ar y cyfle yn ystod eu bywydau beunyddiol i bleidio achos Cymru a gwneud cyfraniad cadarnhaol mewn sawl maes gwahanol.

39. Mae yna lawer o unigolion sydd am helpu i gyflwyno'r Gymru gyfoes i'r byd mawr, ac sydd mewn sefyllfa dda i wneud hynny. Rydym am roi cefnogaeth iddynt a chydweithio â hwy mewn ffordd a fydd o fantais i ni i gyd.

40. Rydym am gysylltu â chynfyfyrwyr Prifysgolion Cymru a chydweithio â Chonsortiwm Rhyngwladol Cymru a Sefydliadau Addysg Uwch i feithrin cysylltiadau buddiol â chymdeithasau cynfyfyrwyr.

41. Mae hiraeth mawr ymhlith y Cymry sy'n byw oddi cartref, ond mae yna hefyd barodrwydd mawr i helpu i hyrwyddo Cymru yn y gwledydd lle maent yn byw. Yn ogystal â'r nifer mawr o bobl a anwyd yng Nghymru sydd bellach yn byw y tu allan iddi, mae llawer iawn mwy, mewn sawl cenhedlaeth, sydd ag ymrwymiad i Gymru drwy eu rhieni a'u cyndadau. Dyma sail cynifer o'r Cymdeithasau Cymreig ledled y byd. Gall y cymdeithasau hyn ddarparu rhwydwaith hanfodol o bobl sy'n frwd o blaid hyrwyddo Cymru. Byddwn yn mynd ati i geisio meithrin cysylltiadau mwy clòs â'r Cymdeithasau Cymreig hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ein helpu i gyflwyno'r ddelwedd gyfoes o Gymru yr ydym yn awyddus i'w hybu.

### Mesur Llwyddiant

42. Byddwn yn llwyddo fwyfwy dros gyfnod o amser, a chawn weld tystiolaeth o'r llwyddiant hwnnw yn y ffordd y mae canfyddiad pobl o Gymru'n newid ar y lefel ryngwladol. Bydd y llwyddiant hwnnw i'w weld mewn lefelau uwch o fasnach, mwy o fuddsoddiad uniongyrchol o dramor, mwy o ymwelwyr â Chymru, mwy o fyfyrwyr rhyngwladol, mwy o ffilmiau'n cael eu gwneud yng Nghymru, a hefyd yn y ffaith y bydd Cymru'n cael ei dewis yn amlach yn bartner ar gyfer gwaith gwyddonol ar y cyd, ac ar gyfer mentrau polisi. Ond caiff ei weld hefyd mewn ffyrdd eraill anos eu mesur – er enghraifft, yn lefel yr ymwybyddiaeth gyffredinol am Gymru ledled y byd. Byddwn yn edrych ar ddulliau cost effeithiol o ymchwilio i farchnadoedd, gan gydweithio ag eraill i ddod o hyd i ffyrdd i bwyso a mesur yr hyn a gyflawnwyd o ran gwella'n proffil dros y môr.

### I gloi

Yn y ddogfen hon, amlinellir ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â fframwaith o egwyddorion a fydd, yn ein barn ni, yn ein helpu i wireddu'r weledigaeth honno drwy ganolbwyntio ar y nod a gweithio gyda'n gilydd dros Gymru. Er mwyn sicrhau bod Cymru'n datblygu'n Genedl Ryngwladol sy'n cael ei chydnabod ym mhob cwr o'r byd ac sydd ar ei hennill yn economaidd o'r herwydd, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i holl bartneriaid weithio gyda'i gilydd mewn ffordd unol a chydgysylltiedig. Dyna fydd y nod bellach.

## Atodiad 1

### Rhai o'r Bobl Bwysig Iawn sydd wedi ymweld â Chymru ers 1999

| | | |
|---|---|---|
| 8-12 Hydref 1999 | Y Prif Weinidog Bob Carr | Prif Weinidog De Cymru Newydd |
| 23 Mehefin 2000 | Ei Ardderchowgrwydd Mr Wen Jiabao | Dirprwy Brif Weinidog Tsieina (sydd bellach yn Brif Weinidog) |
| 15 Medi 2000 | Yr Arlywydd Olusegun Obasanjo | Arlywydd Gweriniaeth Ffederal Nigeria |
| 18 Ionawr 2001 | Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog Pengiran Muda Haji Al Muhtadee Billah | Tywysog Coronog Brunei |
| 1 Mawrth 2001 | An Taoiseach Bertie Ahern | Taoiseach (Prif Weinidog) Gweriniaeth Iwerddon |

| | | |
|---|---|---|
| 6 Ebrill | Yr Arlywydd Jordi Pujol | Arlywydd Catalonia |
| 16-17 Hydref 2002 | Jan Olbrycht | Marsial Silesia |
| 2-3 Rhagfyr 2002 | Mary McAleese | Arlywydd Iwerddon |
| 14 Mawrth 2003 | Monsieur Josselin De Rohan | Llywydd Cyngor Rhanbarthol Llydaw |
| 9 Gorffennaf 2003 | Helen Clarke | Prif Weinidog Seland Newydd |
| 27 Gorffennaf 2003 | Dennis Hastert | Llefarydd T'r Cynrychiolwyr Unol Daleithiau America a dirprwyaeth o gyngreswyr a'u partneriaid. |
| 19 Tachwedd 2003 | Herr Erwin Teufel | Gweinidog-Arlywydd Baden-Württemberg, yr Almaen |
| 13 Mai 2004 | Vire Vike-Freiberga | Arlywydd Gweriniaeth Latfia |
| 3-5 Mehefin 2004 | Michal Czarski | Marsial Silesia |
| 12-13 Hydref 2004 | Monsieur Jean-Yves Le Drian | Llywydd Cyngor Rhanbarthol Llydaw |

**Sylwer: Un agwedd yn unig yw hon ar yr amrediad eang o Bobl Bwysig Iawn a groesawyd i Gymru ers 1999; mae rhai o'r uchod hefyd wedi ymweld â ni fwy nag unwaith.**

## Atodiad 2

### Pobl Bwysig Iawn sydd wedi annerch Aelodau'r Cynulliad

| Yr Ymwelydd | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| Ei Mawrhydi'r Frenhines Elizabeth II | 26 Mai 1999 | Agor y Cynulliad Cyntaf |
| Philip Lader, Llysgennad UDA | 6 Gorffennaf 1999 | 1.30-2.00 |

| | | |
|---|---|---|
| Bob Carr, Prif Weinidog De Cymru Newydd | 12 Hydref 1999 | 1.30-2.00 |
| Roy Maclaren, Uwch Gomisiynydd ar gyfer Canada | 30 Tachwedd 1999 | 1.40-2.08 |
| Syr David Steel, Llywydd Senedd yr Alban | 27 Mehefin 2000 | 1.50-2.00 |
| Tanni Grey-Thompson, Athletwraig | 12 Rhagfyr 2000 | 1.45-2.00 |
| Bertie Ahern, Taoiseach, Gweriniaeth Iwerddon | 1 Mawrth 2001 | 12.05-12.30 (ar ôl Cyfarfod Llawn y bore) |
| Tony Blair, Prif Weinidog y Deyrnas Unedig | 30 Hydref 2001 | 1.30 -2.00 |
| Peter Caruana, Prif Weinidog Gibraltar | 19 Mawrth 2002 | 1.50-2.00 |
| Jan Olbrycht, Marsial Silesia | 9 Mai 2002 | 11.40-12.05 (gohiriwyd y Cyfarfod Llawn) |
| Ei Mawrhydi'r Frenhines Elizabeth II | 13 Mehefin 2002 | |
| Mary McAleese, Arlywydd Gweriniaeth Iwerddon | 3 Rhagfyr 2002 | 1.45-2.00 |
| Colin Jackson, Athletwr | 3 Ebrill | 1.45-2.00 |
| Ei Mawrhydi'r Frenhines Elizabeth II | 5 Mehefin 2003 | Agor yr Ail Gynulliad |
| Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog Charles | 5 Mehefin 2003 | Agor yr Ail Gynulliad |
| Arlywydd-Weinidog Baden-Würrtemberg | 19 Tachwedd 2003 | 1.45 - 2.00 |
| Yr Arglwydd Brif Ustus Woolf | 6 Gorffennaf 2004 | 1.45 - 2.00 |
| Llywydd Cyngor Rhanbarthol Llydaw, Monsieur Jean-Yves Le Drian | 13 Hydref 2004 | 1.45 - 2.00 |